

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Brynteg
(Caerfyrddin), Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 30 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	10
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Brynteg, Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 30 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Yn anffodus, ni chawsom unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau. Gwnaethom siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd broffesiynol, gyda charedigrwydd a pharch. Nodwyd gennym y gellid gwneud gwelliannau o ran darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg i gleifion. Roedd y cleifion hynny yr oedd angen apwyntiadau brys arnynt yn cael eu trin mewn modd amserol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' cadarn i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom y cleifion yn cael eu trin â charedigrwydd, urddas a pharch
- Dangosodd y gwasanaeth ffocws ar hawliau a chydraddoldeb cleifion a staff, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol yr oedd eu hangen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus ond nodwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau yn yr ystafell ddihalogi, ac o ran storio meddyginiaethau yn ddiogel ac agweddau ar gofnodion y cleifion. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau a bod y cyfarpar deintyddol yn gweithio'n briodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar a'u bod wedi cael hyfforddiant priodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Tymheredd, glendid a threfn yr ystafell ddihalogi
- Y trefniadau ar gyfer storio a chofnodi meddyginiaethau yn ddiogel
- Roedd angen gwella rhannau o gofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rhagofalon diogelwch tân yn gynhwysfawr
- Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth addas ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn gweithio'n effeithiol. Gwelsom fod y broses ar gyfer cofnodi adborth a chwynion ac ymateb iddynt yn briodol, ond gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran yr asesiad risg ar gyfer gwybodaeth cyflogaeth a oedd ar goll ar gyfer cyflogeion a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir. Gwelsom hefyd fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal fel mater o drefn a bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y cydberthnasau gwaith â gwasanaethau ieched lleol eraill yn gefnogol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Asesu'r risg ar gyfer gwybodaeth cyflogaeth a oedd ar goll am gyflogeion a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir
- Sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal bob blwyddyn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom gydberthnasau gwaith da yn y practis a rhwng cynrychiolydd Grŵp Deintyddol Brynteg a'r staff
- Roedd y system a oedd ar waith i gleifion roi adborth ac i ymateb i'r adborth hwnnw yn addas.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion mewn perthynas â sepsis a rhoi'r gorau i smygu, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol i hybu iechyd y geg. Roedd costau'r gwasanaethau yn cael eu harddangos yn glir i gleifion ac roeddent wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwelsom fod enwau, rhifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a manylion cyswllt mewn argyfwng wedi'u harddangos. Er nad oedd dogfennau ar gael fel mater o drefn mewn ieithoedd neu fformatau eraill, byddai'r practis yn eu darparu i gleifion ar gais.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom y staff yn trin y cleifion gyda charedigrwydd, urddas a pharch. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom glaf byddar yn cael ei drin ag urddas, parch a dealltwriaeth. Roedd ardal y dderbynfa wedi'i lleoli ar wahân i ardaloedd aros y cleifion er mwyn sicrhau y gellid cynnal trafodaethau preifat a chyfrinachol wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Dywedwyd wrthym y byddai swyddfa rheolwr y practis hefyd ar gael i gynnal unrhyw drafodaethau arbennig o sensitif. Roedd pob deintyddfa wedi'i lleoli ar loriau uwch na'r llawr gwaelod ac roedd drysau soled wedi'u gosod ar bob un ohonynt er mwyn sicrhau na ellid gweld y cleifion pan fyddent yn cael triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod proses trefnu apwyntiadau addas ar waith yn y practis a chlywsom gan y staff bod achosion o oedi yn cael eu rheoli gan dîm y dderbynfa, gyda chymorth gan y clinigwyr. Dywedodd y staff wrthym nad oedd achosion o oedi yn digwydd yn aml a bod y cleifion yn cael gwybod amdanynt mewn modd amserol pe byddent yn codi, gan gynnwys trefniadau ar gyfer ffonio'r cleifion cyn iddynt gyrraedd y practis lle bo angen.

Cawsom wybod y byddai cleifion y mae angen apwyntiad brys arnynt yn cael eu gweld o fewn 24 awr. Cawsom wybod hefyd fod y practis yn gweithredu proses 'eistedd ac aros' ar wahân ar gyfer cleifion a oedd am aros i slot ddod yn rhydd, er enghraifft pe byddai apwyntiad yn cael ei ganslo. Gwelsom fod apwyntiadau ar

gyfer cleifion mewn addysg neu gyflogaeth llawn amser yn cael blaenoriaeth ar gyfer slotiau yn gynnar yn y bore a gyda'r nos.

Clywsom gan y staff bod cleifion y GIG yn aros yn hirach i weld deintydd oherwydd cynnydd yn y galw ac y gallai cleifion aros am gyfnod o fis cyn y byddai apwyntiad ar gael.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod llenyddiaeth glir, llawn gwybodaeth i'w gweld o amgylch y practis, a nodwyd gennym er bod rhywfaint ar gael yn Gymraeg, mai yn Saesneg y câi ei darparu yn bennaf. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cysylltu â'u bwrdd iechyd lleol er mwyn cael help i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn gwisgo'r bathodyn 'Iaith Gwaith' a chlywsom gleifion ac aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg yn ystod ein harolygiad. Gwelsom fod gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnis, ond nodwyd gennym nad oedd hyn yn gwbl glir i'r cleifion.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' cadarn i gleifion.

Cawsom wybod y gallai unrhyw gleifion a oedd am gyfathrebu mewn iaith arall ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd polisiau a gweithdrefnau manwl ar waith i hyrwyddo hawliau a chydraddoldeb y cleifion a'r staff yn y practis. Roedd polisi derbyn cleifion ar waith ac roedd adrannau o'r polisi recriwtio wedi'u dylunio gan ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gwelsom fod poster dim goddefgarwch i'w weld yn y dderbynfa a oedd yn amlinellu sefyllfa'r practis o ran cam-drin neu aflonyddu aelodau o'r staff. Dywedodd y staff wrthym fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer cyflogaion, gan gynnwys enghraifft ddiweddar lle roedd cyflogai wedi cael dyletswyddau gwahanol i'w cwblhau oherwydd cyflwr iechyd.

Gwelsom fod cleifion trawsryweddol yn cael dewis o ran sut i nodi eu rhywedd ar systemau'r practis.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus. Roedd ramp yn arwain at ardal y dderbynfa ar y llawr gwaelod ac roedd grisiau a lifft ar gael er mwyn cyrraedd pum deintyddfa fodern wedi'u lleoli ar ddau lawr uchaf y practis tri llawr. Roedd ardaloedd aros ar gael i'r cleifion drwy'r adeilad ac yn agos at y deintyddfeydd.

Gwelsom fod y golau ar lefel addas a bod y systemau cyfathrebu'n gweithio'n effeithiol. Roedd y cyfleusterau newid ar gyfer y staff yn briodol ac roedd ardaloedd y gellid eu cloi ar gyfer cadw eitemau personol. Gwelsom hefyd fod y toiledau i gyd yn lân ac yn cynnwys y cyfarpar cywir.

Roedd yr ystafell ddihalogi wedi cael ei gosod yn briodol er mwyn gallu glanhau a sterileiddio'r cyfarpar clinigol yn effeithiol. Gwelsom fod drysau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyrraedd a gadael y practis, ond nodwyd gennym fod yr allanfa yn cael ei chadw ar agor er y dylid ei chadw ar gau. Roedd y tymheredd yn yr ystafell ddihalogi yn uchel ac esboniodd y staff ei bod yn aml yn boeth pan fyddent yn gweithio yn yr ardal hon ac mai dyna pam fod y drws yn cael ei adael ar agor.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd ar dymheredd addas i'r staff weithio ynddo, heb orfod cadw drysau'r ystafell ddihalogi ar agor.

Gwnaethom edrych ar asesiadau risg iechyd a diogelwch addas a manwl a oedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Roeddent wedi cael eu hadolygu ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2023. Roedd rheolwr y practis hefyd yn defnyddio rhestr wirio ar gyfer asesiadau risg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Gwelsom gynllun cynnal a chadw a pharhad boddhaol ar gyfer yr adeilad a oedd yn gyfredol ac wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar, ynghyd â pholisi iechyd a diogelwch addas. Gwelsom hefyd fod polisi atebolrwydd cyflogwr y practis ac un o bosteri'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

Roedd y practis yn cymryd rhagofalon diogelwch tân priodol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, gan gynnal asesiadau risg tân rheolaidd. Roedd hefyd wedi cael ei asesu gan gontractwr yn ddiweddar ym mis Hydref 2023. Roedd y cofnodion a welsom hefyd yn dangos y canlynol:

- Cafodd y system gwifrau sefydlog ei phrofi ddiwethaf ym mis Mai 2023

- Roedd y staff yn cynnal gwiriadau o'r cyfarpar tân, yn profi'r larymau ac yn cynnal gwiriadau o'r goleuadau argyfwng bob wythnos
- Roedd y goleuadau argyfwng a'r diffoddwyr tân yn cael eu profi bob chwe mis gan gontractwr ac yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn
- Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân a bod cyfarpar ymladd tân ar gael ym mhob rhan o'r practis â labeli cynnal a chadw arno a oedd yn dangos cydymffurfiaeth. Roedd arwyddion cywir ar gyfer allanfeydd tân, ac roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn glir drwy'r practis.

Nodwyd gennym fod digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi ar system briodol a bod gweithdrefnau ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol amdanynt. Er nad oedd unrhyw ddiwyddiadau diogelwch cleifion i'w hadolygu, cawsom sicrwydd gan y broses a oedd ar waith a dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw ddiwyddiadau diogelwch yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisi atal a rheoli heintiau addas a gweithdrefnau boddhaol ar waith er mwyn helpu i sicrhau safonau y prosesau rheoli heintiau. Gwelsom restrau gwirio dyddiol ar gyfer pob deintyddfa, cofnodlyfrau glanhau dyddiol ar gyfer yr amgylchedd a chofnodlyfrau dihalogi dyddiol. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom enghreifftiau o'r staff yn dilyn technegau atal a rheoli heintiau da, gan gynnwys newid cyfarpar diogelu personol (PPE) yn rheolaidd a phrosesau hylendid dwylo effeithiol.

Gwelsom fod cefnfwrd y sinc yn y toiled ar y llawr cyntaf yn dod i ffwrdd o'r wal, felly hefyd gefnfwrd y 'sinc glân' yn yr ystafell ddihalogi. Ni chawsom sicrwydd y byddai cyflwr yr ardal hon yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Gwelsom fod rhwyg yn nefnydd y gadair drin mewn un ddeintyddfa. Gwelsom fod pedair cadair yn yr ardal aros i gleifion ar y llawr uchaf wedi cael eu gorchuddio â brethyn. Roedd dwy o'r cadeiriau hyn yn amlwg yn fudr, ac roedd y defnydd wedi rhwygo ar gadair arall yn yr un ystafell. Ni chawsom sicrwydd y gellid glanhau'r cadeiriau hyn yn effeithiol oherwydd eu cyflwr neu'r defnydd a oedd yn eu gorchuddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw er mwyn gallu ei lanhau a'i ddihalogi'n ddiogel.

Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn gweithio'n iawn a bod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Nodwyd gennym fod y dyddiad defnyddio ar gyfer rhai eitemau yn yr ystafell ddihalogi, gan gynnwys ffleimiau tafladwy a deunyddiau deintyddol hunan-galedu, wedi mynd heibio, a dywedodd y staff wrthym nad oedd

yr eitemau hyn yn cael eu harchwilio fel mater o drefn er mwyn gwirio'r dyddiadau defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarpar clinigol yn gyfredol a bod proses monitro dyddiadau defnyddio yn cael ei datblygu.

Gwelsom fod proses gadarn ar waith ar gyfer glanhau a dihalogi cyfarpar y gellir ei aildefnyddio yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y practis yn ymgymryd â rhaglenni cynnal a chadw dyddiol ac yn cynnal gwiriadau ar gyfarpar ar ddechrau a diwedd y dydd a gwelsom fod proses diheintio argraffiadau ddiogel ar waith. Roedd adolygiadau wythnosol yn cael eu cynnal o gofnodion cylch yr awtoclaf a gwelsom fod y peiriannau awtoclaf yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom fod brwshys a mopiau glanhau budr yn cael eu storio yn ardal 'fudr' yr ystafell ddihalogi, y tu ôl i ddrws a bod y mopiau yn cael eu storio yn eu bwcedi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar glanhau yn cael eu storio ar wahân i ardal y broses ddihalogi a bod y mopiau yn cael eu gadael i sychu'n iawn.

Gwelsom ddroriau mewn dwy ddeintyddfa a oedd yn cynnwys cyfarpar clinigol y gellir ei aildefnyddio ar gyfer y geg a oedd wedi cael ei lanhau ond wedi'i storio heb orchudd. Roedd gwaith papur ac eitemau personol anghlinigol eraill yn cael eu cadw yn yr un drôr clinigol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl gyfarpar clinigol ei gadw wedi'i ddiheintio a'i storio'n briodol.

Clywsom gan y staff eu bod yn teimlo'n hyderus â lefel yr hyfforddiant roeddent wedi'i gael ac roeddent yn gallu enwi'r arweinydd atal a rheoli heintiau. Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar atal a rheoli heintiau a gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio i atal anafiadau. Roedd amlinelliad o'r defnydd o ddyfeisiau offer miniog mwy diogel wedi'i nodi fel rhan o brotocol anafiadau nodwydd cyfredol.

Gwelsom dystiolaeth bod holl wastraff y practis yn cael ei drin yn briodol gan y staff a thrwy gontract gwaredu gwastraff addas. Roedd y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael ei rheoli'n addas ac yn destun asesiad risg, a gwelsom fod ffolder COSHH y practis yn addas.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith a oedd yn cyfeirio at ddefnyddio a dosbarthu meddyginiaethau yn y practis. Roedd anesthetigion yn cael eu defnyddio gan y practis ond nid oedd y symiau a oedd yn cael eu defnyddio yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dosau meddyginiaeth eu cofnodi'n gywir.

Roedd meddyginiaethau gwrthfotig yn cael eu storio mewn cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi mewn deintyddfa nad oedd yn cael ei defnyddio na'i chloi. Oherwydd yr effaith bosibl ar ddiogelwch cleifion, aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn ystod yr arolygiad ac mae'r camau gweithredu a gymerwyd i'w gweld yn Atodiad A.

Roedd y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel ac effeithiol yn gadarn. Nodwyd gennym fod yr holl gyfarpar brys a'r holl feddyginiaethau brys yn drefnus a'u bod yn cael eu gwirio bob wythnos gan ddefnyddio rhestr wirio.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel a gwelsom yng nghofnodion y staff fod nifer priodol o swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ar gael a bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol (CPR).

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd polisi diogelu addas ar waith, a oedd yn nodi protocolau'r practis gan gynnwys enw unigolyn penodedig a manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Ond gwnaethom nodi nad oedd y polisi diogelu yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried adolygu ei bolisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant esbonio'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddai ganddynt bryder, gan nodi y byddent yn teimlo'n hyderus i godi pryderon ac enwi'r arweinydd diogelu. Gwelsom yng nghofnodion y staff fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i lefel briodol ar ddiogelu oedolion a phlant.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod proses gynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Roedd y cyfarpar clinigol a welsom yn ddiogel, yn gweithio'n iawn ac yn addas at y diben bwriadedig.

Roedd pob un o'r polisiâu, y gweithdrefnau a'r protocolau a oedd ar waith mewn perthynas ag ymbelydredd yn helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith ar gyfer yr amgylchedd, prosesau cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar pelydr-X. Roedd hyn yn cynnwys manylion am ardaloedd a reolir, rhaglen ar gyfer adolygu'r rheolau lleol ac asesiadau risg yn ogystal â threfniadau ar gyfer ymchwilio i ddiwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt. Gwelsom ffolder diogelu rhag ymbelydredd addas a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer y cyfarpar radiolegol.

Wrth adolygu cofnodion y staff, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, a oedd yn cynnwys sesiwn fel rhan o'r broses sefydlu.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Clywsom gan y staff eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o ran asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin yn ddiogel. Gwelsom fod triniaethau yn cael eu darparu'n unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Nodwyd fod proses gadarn ar waith i gofnodi ac uwchgyfeirio digwyddiadau diogelwch cleifion. Er nad oedd unrhyw ddiwyddiadau diogelwch cleifion i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd drwy'r prosesau a oedd ar waith.

Gwelsom restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith ar gyfer cadw cofnodion a rheoli cofnodion, ac roedd y practis yn storio cofnodion yn ddiogel ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gwelsom hefyd fod polisi cydsynio priodol ar waith i gleifion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf, a nodwyd bod angen cryfhau'r meysydd canlynol:

- Dim ond yn nodiadau dau o'r cleifion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt yr oedd y cyfiawnhad dros gynnal pelydr-X, y canfyddiadau clinigol a graddau ansawdd pob radiograff wedi'u cofnodi
- Roedd hylendid y geg wedi'i gofnodi mewn tri o'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi cael ei gofnodi mewn pedwar o'r cofnodion a welsom, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi esbonio risgiau a manteision archwiliadau pelydrau-X
- Dim ond mewn un o'r cofnodion perthnasol a welsom yr oedd cynlluniau gofal wedi'u darparu

- Dim ond mewn cofnod un o'r cleifion yr oedd cofnod am broses sgrinio ar gyfer canser
- Nid oedd apwyntiadau adalw wedi'u cofnodi mewn chwech o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion.

O'r cofnodion cleifion a welsom, roedd angen rhagor o fanylion mewn perthynas â'r canlynol:

- Deunyddiau ar gyfer argraffiadau a'r math o sment a ddefnyddiwyd i osod coron
- Archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, archwiliadau meinweoedd meddal, asesiad risg o geudodau a thraul dannedd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd gofal ar gael i gleifion mewn modd amserol drwy broses frysbenneu drylwyr a oedd yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny â'r anghenion mwyaf dybryd, gan gynnwys defnyddio rhestr ar gyfer apwyntiadau a oedd yn cael eu canslo er mwyn defnyddio amser y clinigwyr yn effeithiol. Gwelsom fod gwasanaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol y cleifion ar safle a oedd yn addas o ran maint a nifer y staff. Gwelsom fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill yn briodol a bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu monitro gan staff y practis.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli manwl ar waith, a oedd yn cynnwys cymorth gan reolwr ardal a oedd yn gysylltiedig â sawl un o bractisau deintyddol Brynteg. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef pe byddai angen unrhyw gyngor arnynt gan reolwr a dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Grŵp Deintyddol Brynteg i ymgymryd â'u rolau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth er mwyn datblygu'r tîm a gwelsom gofnodion cyfarfodydd a oedd yn dangos bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn i'r staff drafod adborth a chwynion gan gleifion a llesiant y staff.

Dywedodd y staff wrthym fod y practis wedi cynnal diwrnod cwrdd i ffwrdd i bob aelod o'r staff yn ddiweddar a oedd yn canolbwyntio ar lesiant y staff. Clywsom gan y staff fod diwrnodau o'r fath yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i ddatblygu'r tîm ac i gynnig diwrnod i ffwrdd o'r gweithle i'r tîm cyfan.

Gwelsom fod y practis yn gweithredu system rota ar gyfer ei staff er mwyn sicrhau bod nifer digonol o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sydd wedi cael hyfforddiant addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Roedd rheolwr y practis yn defnyddio grŵp negeseuon er mwyn trefnu staff i gyflenwi yn ystod cyfnodau o brinder staff oherwydd absenoldebau ac roedd aelodau o staff practisau deintyddol eraill Brynteg ar gael yn ôl yr angen. Anaml y byddai'r practis yn defnyddio staff asiantaeth. Roedd dros 12 mis ers i aelod o staff asiantaeth gael ei ddefnyddio ddiwethaf.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ôl cofnodion y chwech aelod o staff y gwnaethom edrych arnynt, allan o gyfanswm o 18, gwelsom fod y practis yn cynnig cymorth cynhwysfawr er mwyn hyfforddi a datblygu staff. Nodwyd gennym fod polisi datblygu a hyfforddi staff addas ar waith, a gwelsom ym mhob un o'r cofnodion a welsom fod y staff wedi cwblhau eu cyrsiau hyfforddiant gorfodol. Gwelsom hefyd fod aelodau o'r staff wedi mynd y tu hwnt i lefel yr hyfforddiant gofynnol ac esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant. Nodwyd gennym nad oedd arfarniadau staff wedi'u cynnal ers 2021.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal o leiaf bob blwyddyn.

Wrth edrych ar gofnodion chwe aelod o'r staff, nodwyd y canlynol mewn perthynas â rhwymedigaethau proffesiynol y staff:

- Roedd cofrestriadau â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu goruchwylio gan reolwr y practis gan ddefnyddio system ar-lein
- Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal fel mater o drefn
- Roedd yswiriant indemniad ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol
- Roedd gwiriadau Hepatitis B yn cael eu cynnal fel rhan o'r broses recriwtio
- Roedd disgrifiadau swydd a chontractau cyflogaeth ar waith.

Nid oedd prosesau ar gyfer gwirio hanes cyflogaeth na gwirio geirdaon yn cael eu cynnal fel mater o drefn i gyflogeion. O edrych ar gofnodion pob un o'r 18 aelod o staff, dim ond yn ffeiliau tri ohonynt yr oedd y dogfennau hyn ar gael. Dywedodd y staff wrthym fod perchennog y practis wedi newid yn ddiweddar ac nad oedd y wybodaeth honno wedi'i storio ar ffeiliau'r aelodau o staff a gyflogwyd cyn hynny. Nodwyd gennym fod cofnodion pob aelod newydd o staff yn cynnwys y gwiriadau priodol a bod polisi a gweithdrefn recriwtio cynhwysfawr wedi'u rhoi ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd system briodol ar waith er mwyn i gleifion roi adborth drwy ddefnyddio ffurflenni a oedd ar gael yn y dderbynfa ac er mwyn i'r practis ymateb i'r adborth hwnnw. Pan fydd y practis yn cael adborth ac yn gweithredu arno, caiff poster ei osod yn y dderbynfa sy'n esbonio ymateb y practis. Gwelsom fod gofawyr yn gallu cwblhau ffurflen adborth ar ran cleifion a bod adborth ar lafar yn cael ei gasglu hefyd. Dywedodd y staff wrthym fod adborth yn cael ei goladu a'i drafod yn ystod cyfarfodydd y practis.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu rheoli'n unol â'r weithdrefn Gweithio i Wella ac roedd posteri i'w gweld a oedd yn cyfleu'r wybodaeth hon i gleifion. Nodwyd gennym fod protocol clir ar waith i reoli cwynion ac ymateb iddynt drwy ddefnyddio system rheoli cwynion. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion, gan nodi thema gyffredin mewn perthynas â mynediad at ofal y GIG a'r ffaith bod llinellau ffôn y practis yn gallu bod yn brysur.

Gwelsom bolisi Dyletswydd Gonestrwydd cynhwysfawr a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff yn glir a chadarnhaodd yr aelodau hynny o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall y polisi. Clywsom hefyd fod y staff yn cael eu hannog gan y tîm rheoli i godi pryderon o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, a gwelsom fod hyfforddiant wedi cael ei drefnu i bob aelod o'r staff. Nid oedd y practis wedi rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd i ni eu hadolygu.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Wrth adolygu cofnodion y practis mewn perthynas â gwella ansawdd, gwelsom fod archwiliadau o gardiau cofnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod wedi cael eu harchwilio ddiwethaf ym mis Hydref 2023. Roedd archwiliadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chwblhawyd yr archwiliad diwethaf ym mis Mehefin 2023. Roedd archwiliadau ar gyfer diogelwch tân, hylendid dwylo a dihalogi ac atal a rheoli heintiau hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd yr archwiliadau diwethaf ar gyfer y rhain wedi cael eu cynnal ym mis Gorffennaf 2023.

Gwelsom fod archwiliadau ar ragnodi gwrthfotigau wedi'u cynnal ddiwethaf ym mis Ionawr 2023 a gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau adolygu cymheiriaid yn cael eu cynnal ar draws Grŵp Deintyddol Brynteg. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.

Er i ni weld dystiolaeth bod archwiliadau yn cael eu cynnal, gwnaethom nodi nifer o faterion sydd wedi'u hamlinellu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a chofnodion cleifion y dylid bod wedi'u nodi yn ystod y broses archwilio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella effeithiolrwydd ei weithdrefnau archwilio, gan ystyried y cymorth sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod fod y cydberthnasau gwaith â'r system gofal iechyd ehangach yn foddhaol, ac esboniwyd bod y trefniadau ar gyfer

gweithio gyda meddygon teulu lleol a'r fferyllfa leol yn eu galluogi i ddarparu gofal gwell i gleifion. Gwelsom fod eu prosesau atgyfeirio yn effeithlon ac yn cael eu rheoli'n briodol gan staff y practis, gan gynnwys unrhyw gamau dilynol.

Gwelsom fod y cydberthnasau gwaith rhwng y tîm lleol a'r staff corfforaethol o Grŵp Deintyddol Brynteg yn dda a chadarnhawyd hyn gan yr hyn a ddywedodd y staff wrthym.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd meddyginiaethau gwrthfotig yn cael eu storio mewn cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi mewn deintyddfa nad oedd yn cael ei defnyddio na'i chloi.	Risg i gleifion a allai gael gafael ar feddyginiaethau a reolir heb awdurdod.	Trafodwyd y mater hwn â'r rheolwyr ar ddiwrnod yr arolygiad.	Cafodd y meddyginiaethau eu storio'n ddiogel.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg, Caerfyrddin

Dyddiad yr arolygiad: 30 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol pellach yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg, Caerfyrddin

Dyddiad yr arolygiad: 30 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod gwybodaeth glir a defnyddiol i'w gweld o amgylch y practis. Nodwyd gennym fod rhywfaint o'r llenyddiaeth hon ar gael yn Gymraeg ond ei bod yn cael ei darparu yn Saesneg yn unig yn bennaf. Gwelsom fod gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal i gleifion, ond nodwyd gennym nad oedd yn cael ei gynnal mewn modd rhagweithiol.	Dylai'r rheolwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' cadarn i gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a)	Rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â'r mater hwn o'r blaen ac mae'r bwrdd yn mynd i roi'r dolenni perthnasol i ni er mwyn gallu darparu'r wybodaeth yn Gymraeg. Rwyf wedi cysylltu â Joanna Cloke unwaith eto i drafod y mater. Rwyf hefyd wedi gosod arwyddion o amgylch y practis yn rhoi gwybod i gleifion	Cathy Jones - Rheolwr Cofrestredig AGIC a Zoe Paynter, Rheolwr y Practis	1 mis

			bod gwasanaeth dwyieithog ar gael yn y practis		
Nodwyd gennym fod allanfa'r ystafell ddihalogi yn cael ei chadw ar agor pan ddylid ei chadw ar gau. Roedd y tymheredd yn yr ystafell ddihalogi yn uchel ac esboniodd y staff ei bod yn aml yn boeth pan fyddent yn gweithio yn yr ardal hon ac mai dyna pam fod y drws yn cael ei adael ar agor.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd ar dymheredd addas i'r staff weithio ynddo, heb orfod cadw drysau'r ystafell ddihalogi ar agor.	Adran 22 (2) (a)	Cafwyd trafodaeth â'r uwch-nyrs ar unwaith a chynhaliwyd cyfarfod â phob aelod o'r staff. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'r allanfa ar gau Hefyd, anfonwyd adroddiad at Todays Dental ac rydym wedi gofyn iddynt edrych i weld pa welliannau y gellid eu gwneud i'r ystafell er mwyn gwella'r tymheredd a'r dulliau awyru ynddi er mwyn sicrhau nad yw mor gynnes i'r staff.	Zoe Paynter Rheolwr y Practis Cathy Jones Rheolwr Cofrestredig AGIC	Wedi'i wneud ar unwaith 3 mis
Gwelsom fod cefnwrdd y sinc yn y toiled ar y llawr	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr adeilad yn	Adran 22 (2)	Newidiodd perchnogion y practis yn ddiweddar,	Cathy Jones	3 mis

<p>cyntaf yn dod i ffwrdd o'r wal, felly hefyd gefnwrdd y 'sinc glân' yn yr ystafell ddihalogi. O ganlyniad, gallai'r ardaloedd y tu ôl i'r cefnfyrdau gael eu halogi. Gwelsom fod rhwyg yn nefnydd y gadair drin mewn un ddeintyddfa. Gwelsom fod pedair cadair yn yr ardal aros i gleifion ar y llawr uchaf wedi cael eu gorchuddio â brethyn. Roedd dwy o'r cadeiriau hyn yn amlwg yn fudr, ac roedd y defnydd wedi rhwygo ar gadair arall yn yr un ystafell. Ni chawsom sicrwydd y gellid glanhau'r cadeiriau hyn yn effeithiol oherwydd eu cyflwr neu'r defnydd a oedd yn eu gorchuddio.</p>	<p>cael ei gynnal a'i gadw er mwyn gallu ei lanhau a'i ddihalogi'n ddiogel.</p>		<p>ac mae bellach yn eiddo i Todays Dental. Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys ar y rhestr o bethau i'w gwella. Mae adeiladwyr wedi ymweld â safle'r practis ac wedi rhestru'r gwelliannau. Roedd ardal aros a threfniadau eistedd newydd ar y rhestr yn ogystal â gwaith cynnal a chadw a gwelliannau cyffredinol e.e. roedd cefnfyrdau'r toiledau wedi'u nodi bryd hynny hefyd. Anfonwyd adroddiad at Todays Dental yn cyfeirio eto at y gwelliannau hyn ac rydym wedi gofyn am ddyddiad posibl ar gyfer dechrau'r gwaith hwn</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig AGIC</p>	
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------	--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------	--

<p>Nodwyd gennym fod y dyddiad defnyddio ar gyfer rhai eitemau yn yr ystafell ddihalogi, gan gynnwys ffleimiau tafladwy a deunyddiau deintyddol hunan-galedu, wedi mynd heibio, a dywedodd y staff wrthym nad oedd yr eitemau hyn yn cael eu harchwilio fel mater o drefn er mwyn gwirio'r dyddiadau defnyddio.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarpar clinigol yn gyfredol a bod proses monitro dyddiadau defnyddio yn cael ei datblygu.</p>	<p>Adran 13 (2) (a)</p>	<p>Cafwyd trafodaeth â'r uwch-nyrs a'r arweinydd dihalogi ar unwaith. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal gwiriadau rheolaidd. Lluniwyd taflen gofnodi i bob aelod o'r staff er mwyn gwirio dyddiadau defnyddio'r deunyddiau bob mis. Tynnwyd sylw'r staff at hyn. Caiff y taflenni cofnodi eu harchwilio a'u monitro yn rheolaidd gan ein uwch-nyrs.</p>	<p>Zoe Paynter Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau a hynny ar unwaith</p>
<p>Gwelsom fod brwshys a mopiau glanhau budr yn cael eu storio yn ardal 'fudr' yr ystafell ddihalogi, y tu ôl i ddrws a bod y mopiau yn cael eu storio yn eu bwcedi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar glanhau yn cael ei storio ar wahân i ardal y broses ddihalogi a bod y mopiau yn cael eu gadael i sychu'n iawn.</p>	<p>Adran 22 (2) (a)</p>	<p>Cafwyd trafodaeth â'n huwch-nyrs a'r arweinydd dihalogi. Cafodd yr eitemau hyn eu symud ar unwaith a'u rhoi yn ein hystafell storio. Trefnais hefyd i fachyn gael ei osod ar y wal er mwyn gallu</p>	<p>Zoe Paynter Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau a hynny ar unwaith</p>

			hongian y mopiau i sychu'n iawn		
Gwelsom ddroriau mewn dwy ddeintyddfa a oedd yn cynnwys cyfarpar clinigol y gellir ei aildefnyddio ar gyfer y geg a oedd wedi cael ei lanhau ond wedi'i storio heb orchudd. Roedd gwaith papur ac eitemau personol anghlinigol eraill yn cael eu cadw yn yr un drôr clinigol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl gyfarpar clinigol ei gadw wedi'i ddiheintio a'i storio'n briodol.	Adran 13 (3)	Cynhaliwyd cyfarfod â phob aelod o'r staff clinigol i'w hysbysu am y canfyddiadau. Gwahanwyd cynnwys y droriau i gynnwys clinigol ac anghlinigol a phwysleisiwyd pwysigrwydd y drefn hon. Cafodd yr eitemau clinigol a oedd wedi cael eu glanhau a'u storio heb eu gorchuddio eu symud o'r ardal hon, eu sterileiddio eto a'u rhoi mewn bagiau ar unwaith ac fe'u storiwyd yn effeithiol yn y drôr cywir.	Zoe Paynter Rheolwr y Practis	Cwblhawyd a hynny ar unwaith
Roedd anesthetigion yn cael eu defnyddio gan y practis ond nid oedd y	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dosau	Adran 13 (4)	Cynhaliwyd cyfarfod â phob deintydd a therapydd yn y practis.	Zoe Paynter	Cwblhawyd a hynny ar unwaith

<p>symiau a oedd yn cael eu defnyddio yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.</p>	<p>meddyginiaeth eu cofnodi'n gywir.</p>		<p>Rhodddwyd gwybod i'r staff am y canfyddiadau a phwysleisiwyd pwysigrwydd hyn gan esbonio y dylid eu cofnodi ym mhob un o'r nodiadau. Cafodd templedi'r nodiadau eu haddasu er mwyn annog y staff i gofnodi'r wybodaeth hon.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	
<p>Gwnaethom nodi nad oedd y polisi diogelu yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried adolygu ei bolisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.</p>	<p>Adran 14 (1) (a)</p>	<p>Adolygais y polisi ar unwaith a'i ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan</p>	<p>Zoe Paynter Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau a hynny ar unwaith</p>
<p>Dim ond yn nodiadau dau o'r cleifion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt yr oedd y cyfiawnhad dros gynnal pelydr-X, y canfyddiadau clinigol a</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau</p>	<p>Adran 20 (1)</p>	<p>Cafwyd trafodaeth hirfaith â'r prif ddeintydd, y deintyddion cyswllt a'r therapyddion mewn perthynas â'r mater hwn. Rhodddwyd</p>	<p>Zoe Paynter, Rheolwr y Practis a Cathy Jones, Rheolwr Cofrestredig AGIC</p>	<p>Wedi'i gwblhau a hynny ar unwaith</p>

<p>graddau ansawdd pob radiograff wedi'u cofnodi</p> <p>Roedd hylendid y geg wedi'i gofnodi mewn tri o'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi cael ei gofnodi mewn pedwar o'r cofnodion a welsom, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi esbonio risgiau a manteision archwiliadau pelydrau-X</p> <p>Dim ond mewn un o'r cofnodion perthnasol a welsom yr oedd cynlluniau gofal wedi'u darparu</p> <p>Dim ond mewn cofnod un o'r cleifion yr oedd cofnod am broses sgrinio ar gyfer canser</p>	<p>Cyfadrn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.</p>		<p>gwybod i bob un ohonynt am y canfyddiadau hyn. Esboniwyd a phwysleisiwyd bod yn rhaid sicrhau bod cofnodion cleifion yn gywir. Yn unol â pholisi'r practis, mae pob un o'r canfyddiadau yn hanfodol i bob un o'r cleifion a dylid eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion yn ddi-ffael. Cafodd templedi'r nodiadau eu haddasu er mwyn annog y staff i gofnodi'r holl ganfyddiadau. Caiff nodiadau'r clinigwyr eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau na fydd y mater hwn yn codi eto.</p> <p>Mewn perthynas â dewis iaith y cleifion a sut y gallwn ei gofnodi</p>	<p>Zoe Paynter</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>1 mis</p>
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------	--------------

<p>Nid oedd apwyntiadau adalw wedi'u cofnodi mewn chwech o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion.</p> <p>O'r cofnodion cleifion a welsom, roedd angen rhagor o fanylion mewn perthynas â'r canlynol:</p> <p>Deunyddiau ar gyfer argraffiadau a'r math o sment a ddefnyddiwyd i osod coron</p> <p>Archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, archwiliadau meinweoedd meddal, asesiad risg o geudodau a thraul dannedd.</p>			<p>ar ffeil, byddaf yn trafod y mater â Dentally er mwyn gweld a ellid ychwanegu blwch â chwymplen at fanylion a ffeil y cleifion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r mater.</p>		
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

<p>Nodwyd gennym nad oedd arfarniadau staff wedi'u cynnal ers 2021.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal o leiaf bob blwyddyn.</p>	<p>Adran 17(4)</p>	<p>Gan fod perchnogion a chwmni newydd bellach yn berchen ar y practis, roeddem yn aros am arweiniad pellach o ran a fyddent yn awyddus i roi protocolau neu ddulliau eraill ar waith ai peidio. Rydym bellach wedi cael cadarnhad nad oes angen eu newid, felly rwyf wedi neilltuo amser i gynnal arfarniadau cyfredol yn ystod yr wythnosau nesaf.</p>	<p>Zoe Paynter Rheolwr y Practis</p>	<p>1 mis</p>
<p>Nid oedd prosesau ar gyfer gwirio hanes cyflogaeth na gwirio geirdaon yn cael eu cynnal fel mater o drefn i gyflogeion. O edrych ar gofnodion pob un o'r 18 aelod o staff, dim ond yn ffeiliau tri ohonynt yr</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.</p>	<p>Adran 18</p>	<p>Rwyf fi, Zoe Paynter a Cathy Jones wedi trafod y mater hwn a'r ffordd y gallwn unioni'r sefyllfa o ran rhai o'n staff sydd wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser hir. Roedd y ddwy ohonom yn</p>	<p>Zoe Paynter, Rheolwr y Practis Cathy Jones, Rheolwr Cofrestredig AGIC</p>	<p>2 fis</p>

<p>oedd y dogfennau hyn ar gael. Dywedodd y staff wrthym fod perchennog y practis wedi newid yn ddiweddar ac nad oedd y wybodaeth honno wedi'i storio ar ffeiliau'r aelodau o staff a gyflogwyd cyn hynny.</p>			<p>cytuno y dylid llunio polisi ar gyfer y mater hwn ac ar gyfer yr aelodau hynny o staff sydd wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser hir - mae rhai ohonynt wedi bod yn gweithio yma ers iddynt adael yr ysgol fwy na 10 mlynedd yn ôl. Y bwriad wedyn yw y byddwn yn gofyn am eirdaon cymeriad ar gyfer yr aelodau hyn o staff gan aelod proffesiynol o'r cyhoedd neu aelod o'r teulu er mwyn gallu cynnwys gwybodaeth briodol yn lle'r wybodaeth sydd ar goll.</p>		
<p>Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau rhoi'r gorau</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.</p>	<p>Adran 16 (1) (a)</p>	<p>Cafwyd trafodaeth â'r prif ddeintydd a'r uwch-nyrs. Rydym</p>	<p>Zoe Paynter</p>	<p>1 mis</p>

<p>i smygu yn cael eu cynnal.</p>			<p>bellach wedi cofrestru â'r adran ôl-raddedig i gwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu. Mae'r archwiliad hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Hefyd, rydym wedi cofrestru i gynnal archwiliad gan ddefnyddio'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET) ac mae'r archwiliad hwnnw hefyd yn mynd rhagddo yn y practis.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	
<p>Er i ni weld tystiolaeth bod archwiliadau yn cael eu cynnal, gwnaethom nodi nifer o faterion sydd wedi'u hamlinellu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a chofnodion cleifion y dylid bod</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella effeithiolrwydd ei weithdrefnau archwilio, gan ystyried y cymorth sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).</p>	<p>Adran 16 (1) (a)</p>	<p>Cafwyd trafodaeth â Cathy Jones a finnau, Zoe Paynter, am sut y gallwn wella'r mater hwn. Roedd y ddwy ohonom yn cytuno y dylid monitro ac adolygu nodiadau'r cleifion yn rheolaidd ac awgrymwyd y dylid</p>	<p>Zoe Paynter Rheolwr y Practis</p>	<p>3 mis</p>

wedi'u nodi yn ystod y broses archwilio.			cynyddu nifer y nodiadau a gaiff eu harchwilio yn ystod yr archwiliad nesaf a gynhelir o nodiadau a chofnodion cleifion. Roedd y ddwy ohonom hefyd yn cytuno y dylid manteisio ar y cymorth a ddarperir gan AaGIC mewn perthynas â chynnal archwiliadau er mwyn gwneud yn siŵr y caiff effeithiolrwydd yr archwiliadau hyn ei wella.		
------------------------------------------	--	--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Zoe Paynter

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 18/01/2024